

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

The Goodwin Partnership, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 31 Hydref 2022

Dyddiad cyhoeddi: 31 Ionawr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4. Y Camau Nesaf.....	22
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	24
Atodiad C - Cynllun gwella.....	26

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol The Goodwin Partnership, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneirin Bevan 31 Hydref 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod The Goodwin Partnership yn bractis clos a oedd yn rhoi pwyslais ar ddarparu gwasanaeth gofalgwr, proffesiynol a chyfeillgar i'w gleifion. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch dros y ffôn ac yn bersonol, a gwelsom fod cyfrinachedd y cleifion bob amser yn cael ei gynnal.

Roedd yr amgylchedd yn galluogi'r cleifion i gael eu trin mewn awyrgylch croesawgar a dymunol gyda staff chyfeillgar a oedd yn ymdrechu i ddiwallu eu hanghenion. Roedd digonedd o daflenni gwybodaeth a chynghor ar gael i'r cleifion ynglŷn â'r triniaethau sydd ar gael yn y practis.

Gwelsom fod y 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn cael ei annog a'i gefnogi.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y ffenestri ym mhob un o'r deintyddfeydd wedi'u gorchuddio'n ddigonol pan fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal urddas y claf.
- Arddangos tystysgrifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn ardal gyhoeddus
- Gosod sgrin arddangos gwybodaeth 'Dywedoch chi, Gwnaethom Ni' yn yr ystafell aros.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' da ar gyfer y Gymraeg
- Sgrin deledu a oedd yn darparu gwybodaeth berthnasol i'r cleifion wrth iddynt aros ochr yn ochr â digonedd o daflenni gwybodaeth
- Roedd y practis yn olau ac yn fodern ac roedd tîm croesawgar y practis yn trin y cleifion mewn modd chyfeillgar

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn cynnig gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion. Roedd yr adeilad mewn cyflwr da, ac roedd rhagofalon diogelwch tân priodol ar waith lle y bo'n briodol. Byddem yn argymhell bod y practis yn gosod hysbysiad gweithredu diogelwch tân arall mewn ardal sy'n fwy gweladwy i'r cleifion.

O blith y deg cofnod claf a welsom yn ystod yr arolygiad, roedd pob un ohonynt yn glir ac o safon dda, a dim ond mân welliannau yr oedd angen eu gwneud iddynt. Felly, byddai'r

practis yn cael budd o archwiliad parhaus o brosesau cadw cofnodion clinigol a fyddai'n ei alluogi i nodi themâu a materion cyffredin.

Roedd gweithdrefnau dihalogi da ar waith yn y practis ac roedd y cyfarpar mewn cyflwr da. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod meddyginiaethau a phadiau presgripsiwn yn cael eu trin yn briodol yn y practis. Fodd bynnag, byddem yn argymhell bod y practis yn dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 os bydd yn parhau i ganiatáu i'r peiriant golchi a welwyd yn y practis gael ei ddefnyddio i ddihalogi gwisg glinigol y staff. Byddai'n fuddiol i'r staff pe bai manylion cyswllt y gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol ar gael yn haws iddynt pe baent yn cael anaf nodwydd neu offer miniog.

Er y rhoddwyd sicrwydd i ni y caiff cyfarpar a chyffuriau brys eu gwirio'n briodol, gwelsom fod angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod tymheredd yr oergell glinigol a ddefnyddir i gadw glwcagon brys o fewn y paramedrau derbyniol.

Yn gyffredinol, gwelsom fod y polisiâu a'r gweithdrefnau diogelu yn gadarn iawn, a bod llwybr clir i'w ddilyn i'r rheini sy'n amau achos o gam-drin. Roedd y manylion cyswllt yn weladwy, ac roedd cymorth ar gael pe bai angen gan dîm rheoli effeithiol. Byddem yn annog y practis i sicrhau bod polisi ar waith i gynnal gwiriadau addasrwydd i weithio ar gyflogeion y practis.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod archwiliadau cadw cofnodion parhaus yn dal i fod yn fodd effeithiol o nodi themâu cyffredin a mynd i'r afael â nhw'n brydlon
- Datblygu polisi ar wiriadau addasrwydd i weithio ar gyfer y cyflogeion
- Gosod hysbysiad cynllun gweithredu tân ychwanegol mewn man lle y gall y cleifion ei weld.
- Cynnal gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell a ddefnyddir i storio glwcagon brys.
- Dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04 os bydd y practis yn aildechrau defnyddio peiriant golchi'r practis.
- Sicrhau bod manylion cyswllt y gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn haws i'r staff gael gafael arnynt os bydd eu hangen arnynt.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Siart lif diogelu gadarn a chlr.
- Trefniadau archwilio effeithiol a buddsoddi mewn gwelliant parhaus
- Cydymffurfiaeth dda â gofynion atal a rheoli heintiau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Practis teuluol yw The Goodwin Partnership, ac mae ganddo dîm o staff ymroddedig y gwnaethom eu gweld yn cydweithio'n dda i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Gwelsom fod y practis yn drefnus iawn a bod y polisiâu a'r gweithdrefnau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn ddidrafferth ac yn effeithlon yn unol â'r safonau a'r rheoliadau ar gyfer practisau deintyddol preifat yng Nghymru.

Roedd ffolderi personol y staff yn cynnwys tystiolaeth o'r hyfforddiant gorfodol gofynnol ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau gwiriad gan y DBS ar adeg ei gyflogi.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd staff chwarterol rheolaidd a oedd yn cael eu cofnodi ac yn cynnig atebion rhagweithiol i unrhyw broblemau canfyddedig.

Roedd llesiant y staff yn cael ei drin fel blaenoriaeth, ac roedd hyn wedi meithrin tîm a oedd, yn ôl pob golwg, yn barod i fynd yr ail filltir dros y practis a'i gleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod manylion cyswllt cyfleustodau a gwasanaethau ar gael yn haws yn y cynllun parhad busnes.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Strwythur rheoli clir
- Pwyslais clir ar lesiant a chymorth staff
- Polisiâu a gweithdrefnau clir mewn perthynas â rhedeg y practis deintyddol
- Tîm rheoli brwdfrydig ac ymroddedig a oedd yn darparu cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, yswiriant indemniad a chysiau hyfforddi i'r staff er mwyn buddsoddi yn eu datblygiad, eu sgiliau a'u gwybodaeth
- Staff a oedd yn cydweithio'n dda fel tîm.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 38 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dywedodd 34 o'r cleifion eu bod wedi bod yn glaf yn y lleoliad ers dros ddwy flynedd, tri ers llai na blwyddyn, ac roedd un claf yn ansicr

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Gwasanaeth ardderchog a staff cyfeillgar”

“Ardderchog”

“Wedi bod gyda'r practis ers pan oeddwn yn blentyn a fyddwn i ddim yn mynd i unrhyw le arall”

“Bob amser yn ceisio fy ngweld pan fydd angen, croesawgar a dymunol iawn”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Dyma rai o'r sylwadau a gafwyd:

“Lleihau amseroedd aros am apwyntiadau, wedi gorfod aros mis”

“Mwy o ddeintyddion”

“Lifft grisiau”

“Alla i ddim meddwl am ddim”

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom y newidiadau a oedd wedi'u gwneud i ddiogelu'r cleifion, staff ac ymwelwyr rhag risgiau feirysau a drosglwyddir wrth anadlu, gan gynnwys COVID-19. Gwelsom fod yr ystafell aros yn cynnwys digon o hylif diheintio dwylo a bod sgriniau plastig clir wedi'u gosod yn y dderbynfa.

Er nad oedd mesurau cadw pellter cymdeithasol yn ofynnol mwyach, gwelsom fod niferoedd yn yr ystafell aros yn cael eu cadw'n isel a bod modd sychu'r cadeiriau. Gwelsom y cleifion yn ymateb i gyfres o gwestiynau sgrinio er mwyn gwirio am symptomau salwch a drosglwyddir wrth anadlu.

Drwy arsylwi ar yr ystafell aros, gwelsom ei bod yn olau ac yn daclus. Roedd sgrin deledu wedi'i gosod ar y wal a oedd yn darparu gwybodaeth berthnasol i'r cleifion am y practis a'r amrywiaeth o driniaethau sydd ar gael. Gwelsom fod amrywiaeth o bosteri gwybodaeth wedi'u harddangos yn y practis a bod taflenni ar gael i'r cleifion fynd â chopi adref gyda nhw pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Roedd arwydd 'Dim smygu' wrth fynedfa'r practis.

Roedd enw'r practis yn amlwg i'r cleifion o'r tu allan ac roedd enwau'r gweithwyr deintyddol proffesiynol sy'n gweithio yn y practis wedi'u harddangos wrth y fynedfa, ynghyd â rhif ffôn ac oriau agor y practis.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn lân.

Dyma un sylw cadarnhaol a gafwyd:

“Wedi fy annog i roi'r gorau i smygu - heb smygu ers 13 wythnos”

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd bron pob un o'r cleifion eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddynt pan oedd angen triniaeth arnynt.

Dyma rai o'r sylwadau a roddwyd yn holiadur AGIC:

“Deintydd a staff cyfeillgar iawn”

“Staff ymroddedig, lefel uchel o gyfathrebu. Gofal teulu gwyach, yn sicr i blant ifanc.”

“Mae'n dda iawn ac mae'r staff yn barod i helpu”

Gwelsom fod y staff a oedd yn darparu gofal deintyddol i'r cleifion yn gwneud hynny mewn ffordd urddasol a pharchus. Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar, cymwynasgar a gofalgar.

Gwelsom fod drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau pan oeddent yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, gwelsom fod y ffenestri mewn rhai o'r deintyddfeydd yn wynebu cartrefi preswyl, a byddem yn argymhell bod gorchuddion ffenestri'n cael eu gosod ar y ffenestri hyn er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Dyweddod y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym pe bai claf yn dymuno cael sgwrs breifat neu sensitif, y byddai'r sgysiau hyn yn cael eu cynnal yn ardal y swyddfa neu mewn deintyddfa wag pe bai un ar gael.

Roedd y practis yn darparu cynnig rhagweithiol cadarnhaol ar gyfer y Gymraeg. Gwelsom fod posteri ar gael yn Gymraeg a bod gan y practis fersiwn Gymraeg o'i holiadur adborth cleifion. Gwelsom y staff yn gofyn i'r cleifion beth oedd eu dewis iaith a dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff wrthym fod y staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu Cymraeg pe baent yn dymuno gwneud hynny. Roedd y staff a oedd yn dysgu Cymraeg yn cael eu hannog i wisgo bathodyn iaith Gwaith.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn i gleifion sy'n siarad ieithoedd eraill. Y bwrdd iechyd lleol oedd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd digonedd o daflenni a gwybodaeth ar gael i'r cleifion a oedd yn hybu iechyd y geg ac yn esbonio'r mathau gwahanol o driniaethau a oedd ar gael yn y practis. Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod taflenni a gwybodaeth ar gael i'r cleifion i'w hannog i roi'r gorau i smygu.

Gwelsom wybodaeth wedi'i harddangos yn glir yn yr ystafell aros am gost triniaeth breifat yn ogystal â ffioedd y GIG. Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC Cymraeg a Saesneg wedi'u harddangos y tu ôl i ddesg y dderbynfa, y gallai'r cleifion eu gweld yn glir. At hynny, gwelsom fod Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol wedi'u harddangos yn Gymraeg a Saesneg. Roedd y polisi cwynion a'r weithdrefn gwyno hefyd i'w gweld yn yr ardal aros, a oedd yn cydymffurfio â gweithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG.

Cawsom gopiau o'r datganiad o ddiben a'r daflen gwybodaeth i gleifion diweddaraf, a baratowyd yn unol â'r rheoliadau. Gwelsom fod y ddwy ddogfen yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol.

Gwelsom fod y practis yn annog cleifion y gall fod angen gwybodaeth arnynt mewn fformat amgen i ofyn am hynny. Fodd bynnag, ni welsom dystysgrifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos a byddem yn argymhell bod y rhain yn cael eu harddangos mewn ardal lle y gall y cleifion eu gweld.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Ar ddiwrnod ein hymweliad, gwelsom fod y clinigwyr yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dangosodd ein trafodaethau â'r staff y byddai aelod o dîm y dderbynfa'n rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr, ac yn cynnig aildrefnu pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Dywedwyd wrthym y gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu'n bersonol. Dywedodd y staff wrthym, er nad oedd system trefnu apwyntiadau ar-lein ar gael, y gallai cleifion drefnu apwyntiadau drwy wefan y practis, a oedd yn cynnwys gwasanaeth negeseua.

Dywedodd y staff wrthym fod trefniadau ar waith i gleifion gael apwyntiad brys pe bai angen. Pe bai angen cyngor neu driniaeth frys arnynt yn ystod oriau agor y practis, byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu mewn modd hyblyg ar eu cyfer. Pe bai angen apwyntiad brys ar gleifion y tu allan i oriau'r practis, byddent yn cael eu cynghori i ffonio'r practis er mwyn cael apwyntiad brys drwy'r gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau.

Dywedodd hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd bron dwy ran o dair ohonynt eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol bryd y tu allan i oriau, a dywedodd traean nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu sampl o 10 o gofnodion cleifion. Gwelsom fod bron pob un ohonynt yn cynnwys tystiolaeth o waith cynlluniau triniaeth priodol.

[Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent gael eu cynnwys yn y penderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y tîm deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn rhoi unrhyw driniaeth. Yn ddieithriad, dywedodd pob un o'r cleifion fod triniaethau a gweithdrefnau deintyddol bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall.

Hawliau pobl

Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau bod hawliau dynol y cleifion yn cael eu cynnal. Gwelsom fod gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Roedd hwn wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar. Roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gofynnwyd i recriwtiaid newydd gwblhau ffurflen cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn galluogi'r rheolwr cofrestredig i sicrhau eu bod yn cael eu recriwtio'n deg i bob swydd. Cawsom gopi o bolisi bwllo ac aflonyddu a gweithdrefn gwyno i helpu'r staff i godi pryder os byddant yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg.

Roedd y practis wedi'i leoli ar lawr cyntaf adeilad pwrpasol. Gwelsom fod angen dringo grisiau i gyrraedd mynedfa'r practis, ac na fyddai'n hygyrch i gleifion ag anhawster hygyrchedd. Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o'r staff am y trefniadau i gleifion a all fod am ddod i'r practis ond a all ei chael hi'n anodd gwneud hynny. Dywedwyd wrthym y byddai cleifion ag anawsterau hygyrchedd yn cael eu gweld yng nghanen y practis yn y

Porth pe baent yn dymuno hynny. Gwelsom fod gwybodaeth ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen i gleifion am ofynion mynediad y gangen yng Nghwmbrân.

Gwelsom fod gan y practis ddolen sain i gleifion ag anawsterau clywed. Gallai cleifion na allent drefnu apwyntiad dros y ffôn gysylltu â'r practis drwy system negeseua ar-lein.

Dywedodd y staff wrthym pe bai claf yn datgelu ei statws trawsryweddol, y byddai pob cofnod amdano yn cael ei ddiwygio, ac y byddai dymuniadau'r claf o ran y defnydd o ragenwau ac unrhyw newid i'w enw yn cael eu cofnodi'n syth.

[Nododd bron pob un o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir. At hynny, ni nododd yr un o'r ymatebwyr eu bod wedi wynebu gwahaniaethau wrth ymweld â'r practis deintyddol.

Gwrando a dysgu o adborth

Gwnaethom edrych ar y dulliau a ddefnyddir gan y practis i gasglu barn y cleifion a chael adborth ganddynt. Cawsom gopi o holiadur adborth cleifion a ddefnyddir gan y practis i gasglu barn y cleifion. Roedd hwn ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg ac yn Saesneg. Wrth arsylwi ar yr ardal aros, gwelsom fod gan y practis flwch awgrymiadau ar gael i'r cleifion. Er mwyn dangos y gwelliannau a wneir mewn ymateb i awgrymiadau cleifion, byddai'r practis yn elwa ar hysbysfwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' penodol.

Cofnodwyd adborth a roddwyd ar lafar i staff y dderbynfa mewn llyfr penodol. Byddai'r holl adborth a gasglwyd yn cael ei asesi'n chwarterol a'i drafod yn ystod cyfarfodydd staff. Byddai unrhyw adborth arbennig o gadarnhaol yn cael ei rannu â'r aelod o staff dan sylw lle y bo'n briodol, gan ddefnyddio ap negeseua symudol.

Roedd polisi cwynion y practis wedi'i arddangos yn yr ardal aros, ar wefan y practis ac ar daflen y practis. Roedd hwn yn cynnwys manylion am y weithdrefn i'w dilyn pe bai claf yn dymuno gwneud cwyn, yn ogystal â sut i uwchgyfeirio cwyn pe bai angen. Gwelsom fod y polisi'n cynnwys amserlen briodol ar gyfer ymateb, yn ogystal â manylion sefydliadau y gellid cysylltu â nhw pe na bai ymateb y practis yn arwain at ddatrysiad effeithiol. Roedd y polisi'n cynnwys manylion asiantaethau y gellid cysylltu â nhw i gael help a chyngor ynglŷn â gwneud cwyn pe bai angen. Roedd polisi cwynion y practis i gleifion y GIG yn cydymffurfio â gweithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG.

Gwnaethom edrych ar gofnod cwynion y practis. Roedd hwn yn dangos mai nifer bach iawn o gwynion a wnaed i'r practis yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Gwelsom fod y practis wedi ymchwilio'n drylwyr i bob cwyn ac wedi darparu ymateb priodol, a'i bod wedi uwchgyfeirio cwynion at sefydliadau eraill lle y bo'n briodol, yn unol â chais y claf.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y practis yn rhannu adeilad pwrpasol â phractis milfeddygol, a oedd wedi'i leoli ar y llawr gwaelod. Yn ystod yr arolygiad hwn, dim ond y rhannau hynny o'r adeilad a'r ardal o'i amgylch a oedd yn ffurfio rhan o'r practis deintyddol y gwnaethom eu hystyried.

Drwy arsylwi ar amgylchedd y practis, gwelsom ei fod yn daclus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y practis yn cynnwys pedair deintyddfa, yr oedd pob un ohonynt yn fodern, yn olau ac wedi'u hawyru'n dda. Gwelsom fod ystafell ddihalogi benodol a oedd wedi'i lleoli yn ardal swyddfa'r practis. Roedd y practis wedi'i awyru'n dda, gyda system aerdymheru, ffenestri mawr y gellid eu hagor a ffaniau tynnu aer. Roedd y llawr yn addas wedi'i selio'n llawn.

Roedd yr ardal aros yn groesawgar, yn olau ac o faint a chynllun addas ar gyfer y practis deintyddol.

Roedd ardal swyddfa o faint addas yn y practis. Roedd yr ardal hon hefyd yn cynnwys cegin y staff, yn ogystal â chypyrddau i'r staff wisgo a thynnu eu gwisg glinigol. Byddem yn argymhell bod y practis yn neilltuo ardal i'r staff wisgo a thynnu eu gwisg glinigol a oedd ar wahân i'r cegin.

Cawsom gopi o asesiad risg iechyd a diogelwch ac asesiad risg amgylcheddol y practis. Roedd hwn wedi'i adolygu ym mis Ionawr 2022. Dywedodd yr uwch-aelodau o'r staff fod arolygiadau'r gweithle'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a adolygwyd ym mis Chwefror 2022 ac a lofnodwyd gan bob aelod o'r staff.

Roedd cynllun parhad busnes y practis yn nodi pob posibilrwydd yn ogystal â rhifau cyswllt cyfleustodau a gwasanaethau allweddol pe bai methiant.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr ddilys yn ardal y dderbynfa. Roedd poster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn ardal gyfunol y staff/swyddfa.

Cawsom olwg ar y trefniadau yn ymwneud â tân yn y practis. Roedd y practis wedi cynnal asesiad risg tân mewnol a oedd yn bodloni gofynion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Gwelsom dystiolaeth o asesiadau wythnosol o ragofalon tân, gan gynnwys profi'r synwryddion mwg yn y practis. Gwelsom fod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn fisol. Roedd y rhain yn cael eu dogfennu ynghyd ag unrhyw gynlluniau gweithredu ar gyfer gwelliannau a'r amser a gymerwyd i wagio'r practis deintyddol.

Gwelsom fod tri diffoddwr tân wedi'u gosod yn strategol yn y practis, yn ogystal â blanced dân yn ardal y gegin. Roedd pob un ohonynt wedi'u profi a'u gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd cynllun gweithredu tân wedi'i arddangos ym mhrif goridor y practis. Fodd bynnag, nid oedd o reidrwydd mewn ardal lle byddai'r cleifion, y staff ac ymwelwyr yn ei weld pe bai tân ac, felly, byddem yn argymhell bod y practis yn gosod ail gynllun gweithredu tân mewn ardal sy'n fwy gweladwy i'r cleifion.

Cawsom dystiolaeth o hyfforddiant tân a gwblhawyd gan bob aelod o'r staff yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gwelsom fod nifer addas o wardeniaid tân yn y practis.

Roedd tystiolaeth bod gwiriadau diogelwch nwy yn cael eu cynnal bob 12 mis, yn ogystal â gwiriadau gwifrau a phroffion dyfeisiau cludadwy (PAT) ar ddyfeisiau trydanol bob pum mlynedd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis i amddiffyn y cleifion, y staff ac ymwelwyr rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, yn ogystal â gweithdrefnau atal a rheoli heintiau effeithiol. Cawsom dystiolaeth o hyfforddiant ar hylendid dwylo ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ar atal a rheoli heintiau, yn unol â chyngor y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Rhoddyd sicrwydd i ni fod polisiau a gweithdrefnau priodol ar waith yn y practis i liniaru risgiau heintiau a drosglwyddir drwy anadlu.

Rheolwr y practis oedd arweinydd dihalogi'r practis, ac roedd hefyd yn nyrs ddeintyddol gofrestredig gymwys a phrofiadol. Gwelsom fod archwiliadau a oedd yn cydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) wedi'u cwblhau'n flynyddol. Wrth edrych ar ffeiliau'r staff gwelsom fod pob aelod o'r staff clinigol wedi darparu tystiolaeth foddhaol o imiwnedd rhag Hepatitis B.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio system offer miniog diogel ar gyfer rhoi anesthetig lleol. Roedd hyn yn lleihau'r risg y byddai'r staff yn cael anaf nodwydd ac yn dangos tystiolaeth o weithio'n unol ag arferion gorau. Roedd rhestr wirio yn nodi'r broses y dylai'r staff ei dilyn pe baent yn cael anaf offer miniog neu nodwydd i'w gweld ar hysbysfwrdd yn ardal swyddfa'r staff. Fodd bynnag, byddai'n fuddiol i'r staff pe bai manylion cyswllt y gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol ar gael yn haws iddynt pe baent yn cael anaf offer miniog.

Drwy ein harolygiad, gwelsom fod y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir.

Cawsom olwg ar y gweithdrefnau dihalogi yn y practis. Roedd y practis yn glanhau â llaw cyn sterileiddio, a dangoswyd hyn yn effeithiol ar ddiwrnod ein hymweliad. Gwelsom dystiolaeth bod yr awtoclafau'n cael eu profi a'u dilysu'n ddyddiol yn y practis. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion data electronig a chofnodion â llaw a oedd yn cofnodi paramedrau cylchred i sicrhau proses sterileiddio effeithiol.

Roedd gan bob deintyddfa restr wirio ar waith i sicrhau bod prosesau cynnal a chadw a glanhau yn cael eu cwblhau yn ddyddiol.

Gwelsom dystiolaeth bod contractau ar waith ar gyfer ymdrin â gwastraff a'i waredu'n gywir. Roedd y gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn modd priodol.

Roedd y trefniadau ar gyfer ymdrin â sylweddau a oedd yn destun canllawiau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd yn dangos bod darpariaethau priodol ar waith, gan gynnwys taflenni data COSHH a threfniadau ar gyfer storio eitemau'n gywir.

Gwelsom fod gan y practis beiriant golchi er mwyn i'r staff olchi eu gwisg glinigol yn sgil pandemig COVID-19. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn ymwybodol bod angen i'r trefniant hwn gydymffurfio â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-04, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer dihalogi llyeiniau ar gyfer safleoedd iechyd a gofal cymdeithasol. Gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i beidio â defnyddio'r peiriant golchi nes bod y gofynion hyn wedi'u bodloni.

Pan ofynnwyd i am farn ynghylch y gweithdrefnau atal a rheoli heintiau a oedd ar waith yn y practis, dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur cleifion fod y lleoliad yn 'lân iawn'. Dywedodd bron pob un o'r ymatebwyr fod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â gofynion COVID-19 yn 'amlyg iawn' yn y practis.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod gan y practis bolisi rheoli meddyginiaethau addas ar waith a gwelsom ddogfennau a pholisïau priodol ar gyfer ymdrin â chyffuriau a reolir yn y practis.

Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn y practis yn cael eu storio'n briodol mewn ardal hygrych. Roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn gyfredol, a gwelsom dystiolaeth o wiriadau wythnosol i sicrhau bod pob un yn bresennol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-anadlol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelsom fod y glwcagon brys a ddefnyddir i drin pyliau hypoglycemig ymhlith cleifion diabetig yn cael ei storio mewn oergell benodol yn yr ystafell dihalogi. Er bod hyn yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gwelsom nad oedd gwiriadau o dymheredd yr oergell yn cael eu cynnal yn ddyddiol. Argymhellion y dylid dechrau cynnal y gwiriadau hyn er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth hon yn cael ei storio yn yr amodau gorau posibl.

Roedd tri swyddog cymorth cyntaf yn y practis ynghyd â bocs cymorth cyntaf â chyflenwadau priodol.

Roedd padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel mewn drôr wedi'i gloi er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Y rheolwr cofrestredig oedd arweinydd diogelu'r practis, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y rôl hon hyd at lefel tri. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod bron pob un o'r staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ddiogelu hyd at lefel dau. Unionwyd y sefyllfa hon yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod tystiolaeth o bolisi diogelu'r practis yn ogystal â pholisi 'Heb eu hebrwng' i amddiffyn plant. Roedd hysbysfwrdd mawr i'w weld yn ardal swyddfa'r staff a oedd yn cynnwys siart lif glir i'w dilyn pe bai staff y practis yn amau neu'n gweld achos o gam-drin. Roedd rhifau ffôn a manylion cyswllt cysylltiadau allweddol yn y timau diogelu lleol wedi'u rhestru mewn man amlwg.

Wrth edrych ar ffeiliau'r staff gwelsom fod pob un ohonynt wedi cwblhau gwiriadau cyn cyflogi boddhaol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fodd bynnag, nid oedd y rhain wedi cael eu cwblhau eto ac, o ganlyniad, roedd mwy na phum mlynedd ers i rai ohonynt gael eu cwblhau. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd gan bob aelod o'r staff asesiad risg mewn perthynas â'r gwiriadau hyn ar waith, a oedd yn cael ei gynnal bob blwyddyn yn unol ag arfarniadau blynyddol. Er gwaethaf hyn, byddem yn argymhell bod y practis yn rhoi polisi ar waith i gynnal gwiriadau addasrwydd i weithio'n rheolaidd yn unol â chanllawiau arfer gorau, sef tua bob tair i bum mlynedd.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Wrth edrych ar y deintyddfeydd, gwelsom fod pob un ohonynt yn cynnwys cyfarpar priodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar sut i ddefnyddio'r cyfarpar a oedd yn bresennol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar gyfer y cyfarpar radiograffig yn y practis a gwelsom eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) (2017). Rheolwr cofrestredig y practis oedd y cynghorydd a'r goruchwylydd diogelu rhag ymbelydredd. Roedd gweithdrefnau, polisiau a phrotocolau priodol ar waith yn y practis i sicrhau bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel, ac roedd y practis wedi'i gofrestru'n gywir â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ymgymryd â gwaith sy'n cynnwys ymbelydredd Ïoneiddio. Gwelsom dystiolaeth bod asesiad risg wedi'i gynnal i sicrhau bod y staff, y cleifion ac ymwelwyr yn cael eu diogelu rhag risgiau defnyddio ymbelydredd Ïoneiddio. Cawsom set ddilys o reolau a oedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol am y

peiriannau pelydr-X a ddefnyddir yn y practis. Gwelsom fod adroddiadau archwilio critigol ar gael ar gyfer pob peiriant pelydr-X yn y practis.

Drwy edrych ar gofnodion y staff gwelsom eu bod yn cydymffurfio â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hyfforddiant yn IR(ME)R (2017). Gwelsom fod archwiliad o radiograffau a gymerir yn y practis yn cael ei gynnal bob chwe mis.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Rhoddyd sicrwydd i ni fod trefniadau ar waith yn y practis i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y wybodaeth hon ar gael yn natganiad o ddiben y practis, a oedd yn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017).

Roedd tystiolaeth y byddai polisïau a gweithdrefnau'r practis yn cael eu diweddarau yn unol â chanllawiau a chyngor proffesiynol. Roedd dolenni i sefydliadau proffesiynol wedi'u cadw ar fyrddau gwaith y cyfrifiaduron yn y practis, ac roedd y staff yn cael eu hannog i'w gwirio am ddiweddariadau yn rheolaidd.

Gwelsom fod y practis yn defnyddio Rhestrau Gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol er mwyn lliniaru'r risg o dynnu'r dant anghywir.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom fod y practis yn cymryd rhan mewn rhaglen amrywiol o archwiliadau a gwelliannau. Roedd yr archwiliadau a gynhelir yn cynnwys archwiliadau o radiograffau bob dwy flynedd, archwiliadau atal a rheoli heintiau blynyddol, cadw cofnodion, rhoi'r gorau i smygu, archwiliadau o fynediad i bobl anabl ac archwiliadau data.

Sicrhawyd gwelliannau ledled y tîm drwy ddefnyddio adnoddau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) fel y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth a'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET). At hynny, roedd y staff yn cael eu hannog i ymgymryd â modiwl efydd Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd ac roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r modiwl hwn ar lefel Arian.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd ar waith a oedd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Storiwyd cofnodion deintyddol y cleifion yn electronig gan ddefnyddio system ddiogel y gwnaed copi wrth gefn ohoni yn rheolaidd. Roedd angen cyfrinair i gael mynediad i'r system hon. Roedd hyn yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol.

Cadw cofnodion

Gwelsom 10 set ar hap o gofnodion deintyddol cleifion, a oedd yn glir ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol.

O fewn y cofnodion a welsom, roedd tystiolaeth bod profion sgrinio am ganser bob amser yn cael eu cofnodi, ynghyd â hanes cymdeithasol, yn cynnwys y defnydd o dybaco ac alcohol. Gwelsom fod cyngor ar hylendid y geg a deiet bob amser yn cael ei gofnodi hefyd, ynghyd â hanes deintyddol blaenorol.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y taflenni hanes meddygol bob amser yn cael eu cydlofnodi gan y clinigydd dan sylw ac nad oedd yr opsiynau o ran triniaeth bob amser yn cael eu cofnodi. At hynny, nid oedd dewis iaith yn cael ei chofnodi. Felly, argymhellwn y dylid adolygu prosesau archwilio er mwyn sicrhau y caiff meysydd i'w gwella mewn perthynas â chadw cofnodion eu nodi mewn modd amserol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom fod The Goodwith Partnership yn bractis deintyddol teuluol clos, a bod nifer o'r staff a'r deintyddion yn aelodau o'r teulu. Roedd y rheolwr cofrestredig yn fab i'r darparwr cofrestredig, ac ef oedd yn bennaf cyfrifol am reoli'r practis.

Ar adeg ein hymweliad, roedd saith deintydd yn darparu gwasanaethau yn y practis, ynghyd ag un hylenydd deintyddol. Roedd saith nyrs ddeintyddol yn gweithio yn y practis ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Roedd pob aelod cymwysedig o'r staff wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac yn darparu gofal a oedd o fewn ei gwmpas ymarfer ac yn unol ag amodau cofrestru AGIC.

Gwelsom fod tîm y practis yn cydweithio'n dda ac yn dangos parch at ei gilydd. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod yr arweinyddiaeth yn gadarn ac yn glir, ac roedd y practis yn cael ei redeg yn effeithlon yn ôl pob golwg, gyda ffocws ar ddarparu gofal ardderchog i'r cleifion.

Roedd y tîm rheoli yn rhoi pwyslais ar lesiant y staff, a rhoddwyd enghreifftiau i ni o gymorth a roddwyd yn ogystal â gweithgareddau a diwrnodau allan a drefnwyd. Y rheolwr cofrestredig a'r darparwr cofrestredig oedd yn talu ffioedd cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ogystal ag yswiriant indemniad a ffioedd cyrsiau hyfforddi. Darparwyd cymorth pellach gan fentrau wedi'u hariannu gan y bwrdd iechyd lleol, gan gynnwys gwasanaeth cymorth cwnsela diweddar a gynigiodd sesiynau cwnsela am ddim i'r staff yr oedd eu hangen arnynt, am gyfnod o wyth wythnos.

Gwnaethom edrych ar y polisiau a'r gweithdrefnau a oedd ar gael yn y practis a gwelsom amrywiaeth eang a oedd yn benodol i'r practis. Roedd y rhain ar gael yn hawdd i'r staff.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig a'r darparwr cofrestredig wybodaeth gadarn am y gofynion i roi gwybod i AGIC am ddigwyddiadau, pe baent yn digwydd, a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai hysbysiadau'n cael eu cyflwyno mewn modd amserol.

Rhoddwyd tystiolaeth i ni o gofnodion cyfarfodydd tîm. Byddai'r rhain yn cael eu cynnal yn chwarterol ar gyfer pob aelod o dîm y practis. Gwelsom fod strwythur i'r cyfarfodydd a'u bod yn dilyn agenda, a bod materion a chymau gweithredu yn cael eu codi mewn modd rhagweithiol. Roedd cofnodion cyfarfodydd ar gael i bob aelod o'r staff.

Y Gweithlu

Gwnaethom siarad â'r uwch-aelodau o'r staff er mwyn archwilio'r broses ar gyfer recriwtio staff newydd. Cawsom gopi o bolisi recriwtio'r practis a oedd yn cefnogi aelodau newydd o'r staff. Gwelsom gynllun sefydlu cynhwysfawr a oedd yn cefnogi newydd-ddyfodiaid.

Roedd hwn yn galluogi'r practis i asesu eu cymhwysedd ac yn cefnogi eu hyfforddiant, eu dysgu a'u datblygiad.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd y practis yn defnyddio staff asiantaeth. Yn lle hynny, byddai'r staff yn gweithio'n hyblyg rhwng y ddau bractis er mwyn cynnig parhad gofal i'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod ffolderi personol y staff yn cynnwys manylion tystysgrifau hyfforddiant, tystysgrifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a gwiriadau cyn cyflogi.

Roedd y practis wedi datblygu polisi chwythu'r chwiban ar gyfer staff a oedd yn dymuno mynegi pryder am berfformiad gwael gan gydweithiwr. Roedd hyn yn cynnwys system gadarn a fyddai'n diogelu'r rheini a oedd yn chwythu'r chwiban ac yn rheoli tanberfformiad gan aelod o'r tîm rheoli.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod arfarniadau'n cael eu cynnal bob blwyddyn, a gwelsom dystiolaeth o hyn.

Wrth edrych ar gofnodion hyfforddiant gorfodol gwelsom gydymffurfiaeth wych â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y practis yn annog hyfforddiant, ac roedd y darparwr cofrestredig yn awyddus i annog a chefnogi'r staff i ddysgu Cymraeg pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Gwnaethom ofyn i'r rheolwr cofrestredig a'r darparwr cofrestredig am yr hyfforddiant yr oeddent wedi'i gwblhau er mwyn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i reoli'r practis deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant ar radioleg a deintyddiaeth esthetig yn ddiweddar. Roedd y darparwr cofrestredig wedi dilyn cwrs Buddsoddwyr mewn Pobl proffesiynol ar ddarparu rheolaeth ymarferol, dros gyfnod o chwe mis.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Roedd y practis yn defnyddio peiriant golchi i olchi gwisg glinigol ac ni chafwyd sicrwydd ei fod yn cydymffurfio â WHTM 01-04.</p>	<p>Mae angen cymryd camau diogelu ychwanegol wrth olchi lleiniau a gwisg gofal iechyd er mwyn atal achosion o halogi dŵr.</p>	<p>Dywedodd yr arolygydd arweiniol wrth y rheolwr cofrestredig a'r darparwr cofrestredig ei bod yn ofynnol i'r practis gydymffurfio â WHTM 01-04 wrth ddefnyddio'r peiriant golchi, ac na ddylid ei ddefnyddio hyd nes ei bod yn hysbys ei fod yn cydymffurfio â'r</p>	<p>Cafodd y peiriant golchi ei symud ar unwaith a rhoddwyd hysbysiad ar flaen y peiriant i atgoffa pob aelod o'r staff na ddylid ei ddefnyddio.</p>

		canllawiau angenrheidiol.	
--	--	------------------------------	--

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: The Goodwin Partnership, Cwmbrân

Dyddiad yr arolygiad: 31 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: The Goodwin Partnership, Cwmbrân

Dyddiad yr arolygiad: 31 Hydref 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y ffenestri ym mhob un o'r deintyddfeydd wedi'u gorchuddio'n ddigonol pan fyddant yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal urddas y claf.	4.1 Gofal ag Urddas; Rheoliad 15 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Gosod bleinds sgrinio ar ffenestri'r deintyddfeydd er mwyn cynnig mwy o breifatrwydd.	Owain Anthony	14/1/23
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig arddangos tystysgrifau cofrestru'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol mewn ardal gyhoeddus.	Rheoliad 19 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Mae'r aelodau perthnasol o'r staff wedi darparu copïau ffisegol o dystysgrifau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a byddant yn cael eu harddangos ar y wal yn yr ardal aros.	Owain Anthony	10/2/23

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig osod sgrin arddangos gwybodaeth 'Dywedoch chi, Gwnaethom Ni' yn yr ystafell aros.</p>	<p>6.3 Gwranddo a Dysgu o Adborth; Rheoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)</p>	<p>Rydym wedi ychwanegu gwybodaeth at y sgrin wybodaeth yn yr ystafell aros sy'n nodi sut rydym wedi ymateb i adborth gan gleifion.</p>	<p>Owain Anthony</p>	<p>Cwblhawyd 9/11/22</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prosesau archwilio presennol mewn perthynas â chadw cofnodion yn ddigon cadarn i sicrhau y caiff meysydd i'w gwella eu nodi ac yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol.</p>	<p>3.5 Cadw Cofnodion; Rheoliad 20 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)</p>	<p>Gwnaethom drafod y gwelliannau sydd eu hangen â'r staff - yn weithredol ar unwaith. Caiff dewis iaith y claf ei ychwanegu at ein ffurflen hanes meddygol ac mae templed yr archwiliad cadw cofnodion wedi'i ddiwygio er mwyn gwella'r meysydd canlynol: cofnodi opsiynau o ran triniaeth, llofnodi'r ffurflenni hanes meddygol a chofnodi'r dewis iaith. Rydym yn anelu at gynnal ailarchwiliad gan ddefnyddio'r templed newydd yn dilyn yr adolygiad o brosesau ymhen tri mis arall.</p>	<p>Owain Anthony</p>	<p>Diwygio'r ffurflen hanes meddygol a'r templedi archwilio erbyn 10/2/23</p>

<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi ar wiriadau addasrwydd i weithio ar gyfer y cyflogeion.</p>	<p>7.1 Y Gweithlu; Rheoliad 18 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)</p>	<p>Rydym wedi llunio polisi sy'n nodi gweithdrefnau'r practis mewn perthynas â gwiriadau gan y DBS.</p> <p>Mae'r polisi wedi'i ychwanegu at y ffolder polisiâu ac mae wedi'i drafod â'r staff a'i rannu â nhw.</p>	<p>Owain Anthony</p>	<p>Cwblhawyd 9/11/22</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig osod hysbysiad cynllun gweithredu tân ychwanegol mewn man lle y gall y cleifion ei weld.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch; Rheoliad 22(4e) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)</p>	<p>Rydym wedi gosod hysbysiad tân ychwanegol yn y brif ardal aros.</p>	<p>Owain Anthony</p>	<p>Cwblhawyd ar 9/11/22</p>
<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gynnal gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell a ddefnyddir i storio glwcagon brys.</p>	<p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau; Rheoliad 13(4a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)</p>	<p>Fel dewis amgen i storio glwcagon brys yn yr oergell a chynnal gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell, gwnaethom benderfynu storio glwcagon brys yn unol â'r rheoliadau; ar dymheredd o hyd at 25 gradd Celsius am 18 mis. Rydym yn sicrhau y caiff</p>	<p>Owain Anthony</p>	<p>Cwblhawyd ar 2/11/22</p>

		glwcagon ei gadw yn ei becyn gwreiddiol er mwyn ei ddiogelu rhag golau. Cedwir anfonebau prynu er mwyn sicrhau nad oes 18 mis wedi mynd heibio ers i'r glwcagon gael ei gyflenwi. Caiff anfonebau prynu eu cadw ar system gyfrifiadurol sy'n nodi'r dyddiad dod i ben ymhen 18 mis a gosodir negeseuon i atgoffa'r practis i'w ailarchebu.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddilyn WHTM 01-04 os bydd y practis yn ailddechrau defnyddio peiriant golchi'r practis.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi; Rheoliad 13(5) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Datgomisiynwyd y peiriant golchi ar ddiwrnod yr arolygiad. Caiff gwisgoedd clinigol y staff bellach eu golchi gartref.	Owain Anthony	Cwblhawyd ar ddiwrnod yr arolygiad 31/10/22
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt y gwasanaeth iechyd galwedigaethol yn haws i'r staff gael gafael arnynt os bydd eu hangen arnynt.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd; Rheoliad 13(5cii) o Reoliadau Deintyddiaeth	Mae rhif ffôn y gwasanaeth iechyd galwedigaethol ar gael ar hysbysfwrdd y staff yn y swyddfa, ochr yn ochr â'r siart lif mewn perthynas ag anafiadau nodwydd. Fodd bynnag, ers yr	Owain Anthony	Cwblhawyd 2/11/22

	Breifat (Cymru) (2017)	arolygiad rydym wedi sicrhau bod y rhif ffôn cyswllt yn fwy ac yn gliriach.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion cyswllt cyfleustodau a gwasanaethau ar gael yn haws yn y cynllun parhad busnes	2.1 Rheoli Risg a Hybu lechyd a Diogelwch; Rheoliad 22 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Rydym wedi rhoi copi o'r rhestr o gyfleustodau a gwasanaethau o gynllun parhad busnes y practis ar yr hysbysfwrdd yn y swyddfa	Owain Anthony	Cwblhawyd 2/11/22
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod ardal addas yn y practis i'r staff wisgo a thynnu eu gwisg glinigol	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi; Rheoliad 22(3a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (2017)	Rydym wedi cyflwyno gweithdrefn lle mae'r staff bellach yn gwisgo ac yn tynnu eu gwisg glinigol mewn dwy ddeintyddfa ddynodedig. Mae gennym wyth sesiwn sbâr yr wythnos sy'n golygu bod gennym ddeintyddfeydd gwag; rydym wedi neilltuo dentyddfa 1 i'r staff gwrywaidd a deintyddfa 4 i'r staff benywaidd. Mae bleinds wedi'u gosod ar ffenestri'r deintyddfeydd. Mae arwyddion 'do not enter' wedi'u darparu ar	Owain Anthony	Cwblhawyd 2/11/22

	gyfer drysau'r deintyddfeydd er mwyn sicrhau preifatrwydd.		
--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad: